Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Edmwnd Prys**
**Gellilydan**
**Blaenau Ffestiniog**
**Gwynedd**
**LL41 4DY**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Edmwnd Prys

Lleolir Ysgol Edmwnd Prys ym mhentref Gellilydan, ger Blaenau Ffestiniog, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae 34 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 77% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol wedi adnabod 32% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nid oes un ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2013. Mae ganddi gyfrifoldeb dros ysgol arall gyfagos ac mae hi'n rhannu ei hamser rhwng y ddwy ysgol. Arolygwyd Ysgol Edmwnd Prys ddiwethaf ym mis Mehefin 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg llwyddiannus ac maent yn gwneud cynnydd da ar lafar, yn eu darllen a'u hysgrifennu, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf ohonynt wrth drafod, cyflwyno gwaith ysgrifenedig a darllen yn datblygu'n dda. Ychydig o ddisgyblion sy'n ymddangos eu gwir alluoedd yn llwyddiannus wrth ysgrifennu'n ymestynnol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu mathemateg a'u cysyniadau rhifedd yn effeithiol ac mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn arddangos eu hyder a'u gallu yn bwrpasol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n deyrngar am eu disgyblion ac yn cynnig arweiniad a chymorth dibynadwy iddyn nhw a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu hymroddiad tuag at eu anghenion a'u diddordebau. Yn ogystal, maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae hi'n cydweithio'n agos iawn gyda'r pennaeth cynorthwyol. O ganlyniad, maent yn adeiladu ar gryfderau'r ysgol yn synhwyrol ac yn gwella'r meysydd i'w datblygu yn ddoeth trwy weithdrefnau gwella ansawdd cadarn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau ysgrifennu ymestynnol y disgyblion yn effeithiol i adlewyrchu eu gwir alluoedd

A2 Herio’r disgyblion mwyaf galluog i berfformio ar eu gorau’n gyson

A3 Cyfoethogi’r adnoddau yn yr ardal allanol yn y cyfnod sylfaen i ddatblygu medrau’r disgyblion ymhellach

A4 Meithrin rôl y llywodraethwyr i herio’r ysgol yn well fel cyfeillion beirniadol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy’n cyfateb i’r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg cadarn ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n effeithiol yn erbyn eu targedau personol.

Mae’r rhan fwyaf yn cyflawni’n llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Maent yn hyderus ar lafar ac yn deall bod gwrando’n astud ar eraill yn cyfrannu’n bwysig at eu dysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn sgwrsio’n huawdl am eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn esbonio’n glir pam maent yn dewis cyfarpar penodol i drin gwallt ei gilydd wrth chwarae rôl. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, yn enwedig wrth iddynt ymchwilio i oes y tywysogion a chestyll Cymru.

Mae’r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen cadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg yn eglur. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau’n ddeallus ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn bwrpasol trwy ddefnyddio strategaethau ffonig. Maent yn nodi rhinweddau eu harwyr yn fwriadus, gan gynnig esboniadau synhwyrol am effaith gweithredoedd unigolion ar eu hoff gymeriadau. Mae’r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac ynganu’n glir yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio’n gydwybodol ar y we, gan gynnwys olrhain daith y Mimosa i Batagonia a bywydau’r Cymry yno. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol.

Mae llawer, ar draws yr ysgol, yn ysgrifennu’n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau diddorol a chywir yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys dyddiadur y môr leidr, Barti Ddu, a gwerthusiad o geddoriaeth am daith trên ym Mrasil. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu’n ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn disgrifio erchylltra’r ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn feddylgar ac yn ystyried y gwahaniaeth rhwng disgyrchiant a brigwth yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw ysgrifennu ymestynnol y disgyblion yn adlewyrchu eu gwir alluoedd, yn enwedig y mwyaf galluog.

Mae’r rhan fwyaf yn cyflawni’n dda mewn rhifedd. Maent yn cymhwyso’u gwybodaeth flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Enghraifft dda yw’r ffordd y mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cymharu tymheredd Cymru a Kenya. Maent yn nodi'r gwahaniaethau ar adegau penodol o'r flwyddyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn creu murlun o syniadau a bâs data o wybodaeth i wella’u dealltwriaeth yn bwrpasol.

Mae gan y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a’i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell i

gymharu tymheredd Cymru ac uchelfannau De America â chywirdeb. Yn ogystal, maent yn defnyddio graddfa i fesur a chymharu maint cestyll Caernarfon a Harlech ac arbrofi â sefyllfaoedd bob dydd fel cyflenwad dŵr i ymchwilio i gostau yn bwrpasol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni tasgau a chymhwyso'u medrau rhifedd estynedig yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Maent yn defnyddio llechi electronig i gywain gwybodaeth am anifeiliaid Affrica yn dda ac animeiddio'n effeithiol i greu stori am gwningen sy'n dwyn moron o'r ardd. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data yn dda. Maent yn cofnodi hyd rhannau cyrff plant a diametrau eu pennau, er mwyn cwestiynu a threfnu gwybodaeth i ddarganfod patrymau penodol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau diogel yn bwrpasol i gael mynediad i wefannau dysgu i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus, fel peintio patrymau Affricanaidd ar dŷ. Mae'r rhan fwyaf yn barod iawn i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion ac mae'r cydweithio llwyddiannus hwn yn nodwedd gref ymhob dosbarth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau.

Mae bron pob un disgybl yn cyfleu teimladau teyrngar am eu hysgol. Maent yn cyhoeddi â balchder eu bod nhw'n ddiogel ac yn gwybod beth i'w wneud os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ofalgar iawn o'i gilydd, yn cydymdeimlo â phryderon eu cyfoedion yn ddeallus ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn synhwyrol ac yn ymateb yn aeddfed i'w gilydd, gan fynegi eu barnau yn glir. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff ac yn hyderus eu bod yn gwrando'n ofalus arnynt.

Mae'r disgyblion hŷn yn derbyn arweiniad ar sut i gefnogi'r disgyblion iau, gan weithredu hyn yn gydwybodol. Mae hyn yn arfer werthfawr ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ymddygiad synhwyrol bron pob un disgybl. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth glir o bwysigrwydd trin pawb gyda pharch a chwrteisi. Er enghraifft, maent yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ar oedolion a'i gilydd ac yn ymateb yn brydlon a brwdfrydig yn ystod sesiynau rygbi.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Maent yn deall peryglon a all godi yn eu bywyd bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen. Er enghraifft, mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgil defnydd anghyfrifol o'r we.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu. Maent yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol ac yn deall bod eu lleisiau'n bwysig i wella'u dysgu. O ganlyniad, maent yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda, fel manteisio ar gyfleoedd i ymweld â'r Ysgwrn i olrhain hanes a bywyd y bardd lleol, Hedd Wyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill, sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Gallant egluro arwyddocâd arbed dŵr i ddyfrhau planhigion a chasglu sbwriel i gadw'r pentref yn daclus. Yn ogystal, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn wybodus am nodweddion gwledydd a diwylliannau eraill. Maent yn dangos adnabyddiaeth dda o nodweddion arbennig gwledydd tramor fel diwylliant Cymreig Patagonia a manylion perthnasol ynglŷn ag Iddewiaeth.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gydwybodol ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddiwyd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau pwrpasol dros benderfynu ar ran eraill o fewn cymuned yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cynnig eu syniadau'n ddoeth tuag at gynllun gwella'r ysgol ac yn trafod y ffyrdd ymlaen a'r cynnydd yn erbyn y targedau yn ddeallus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol. Maent yn cynllunio themâu diddorol sy'n hybu'r dysgu ac yn ategu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd. Maent yn ystyried barnau a dyheadau disgyblion yn ddoeth, wrth gynllunio gwersi difyr, sy'n cynnwys llais y disgybl. O ganlyniad, mae'r athrawon yn addasu'r cynllunio'n fedrus i ddilyn trywyddau a syniadau'r disgyblion.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd amrywiol ac ysgogol, yn enwedig yn yr ardal fewnol. Er enghraifft, mae'r addysgu yn greadigol a chelfydd gyda'r defnydd o gerddoriaeth yn bywiogi'r dysgu yn fwriadus, fel dilyn taith y trên i Villa Lobos. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus. Defnyddir yr ardal allanol yn gyson i ddatblygu dysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid oes adnoddau addas yn yr ardal hon i ddatblygu medrau'r disgyblion yn gwbl effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau effeithiol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i drefnu data ac ystyried y gwahaniaethau rhwng oes ryfelgar ac oes heddwch.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarn ar safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Defnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu a meddylfryd iach yn bwrpasol fel rhan annatod o'r addysgu a'r dysgu. Mae'r athrawon yn modelu iaith raenus ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson. Mae hyn yn nodwedd gref o'u gwaith. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn fedrau trawsieithol effeithiol ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r athrawon yn herio'r disgyblion i weithio hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai mwyaf galluog.

Mae perthynas waith effeithiol a chefnogol yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus, sy'n cefnogi'r dysgu yn dda, trwy gynnig ymyraethau pwrpasol yn ôl yr angen. Maent yn modelu egwyddorion ac agweddau effeithiol, sy'n meithrin cwrteisi, parch a naws dysgu clodwiw. Mae trefniadau'r dosbarthiadau yn gadarn, gyda'r athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn hynod o effeithiol. O ganlyniad, mae perthynas ofalgar a gweithgar yn bodoli rhwng athrawon a disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r cynllunio ar gyfer gwersi unigol yn drylwyr, gan deilwra'r gweithgareddau er mwyn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau yn ystod gwersi ac, o'r herwydd, maent yn ddysgwyr hyderus. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn effeithiol gyda'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn medru gosod eu meini prawf llwyddiant eu hunain, trafod y gofynion gyda'u cyfoedion, ac asesu eu gwaith eu hunain ac eraill yn hyderus. Fodd bynnag, ar adegau, mae gormod o bwyslais ar weinyddu'r cofnodion ynglŷn â'r meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn llesteirio'r cyfleoedd i ddisgyblion ddechrau ar eu dysgu'n brydlon.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol fel amgylcheddwyr i blannu helyg a thrafod cadw Cymru'n daclus. Maent yn darparu ymweliadau addysgol i lefydd gwahanol yn yr ardal leol fel sbardun i waith thema.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar. Mae llais y disgybl yn ganolog i waith ac ethos yr ysgol, sy'n annog disgyblion hyderus a theyrngar. Mae'r naws deuluol yn hyrwyddo parch a chwrteisi ymysg y disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn ymhyfrydu yn eu gweithgareddau dyddiol a'r gymyned ehangach. Mae'r holl staff yn canolbwyntio ar gydweithio effeithiol er lles pob disgybl, er mwyn iddynt gyflawni ar eu gorau'n gyson.

Mae trefniadau i olrhain cynnydd addysgol y disgyblion wedi eu mireinio yn ddiweddar. Maent yn fanwl ac yn drylwyr. Gwneir defnydd da o ganlyniadau asesiadau i ddarparu cymorth pwrpasol i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth olrhain cynnydd i baratoi gweithgareddau digon heriol i'r disgyblion mwyaf galluog, i'w hymestyn yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus, trwy gydaddoli rheolaidd a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n dawel. Mae sesiynau 'meddylfryd iach' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion drafod materion pwysig, gan gynnwys hawliau dynol, tegwch a chyfiawnder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Caiff eu hanghenion eu hadnabod yn gynnar. Mae'r 'proffiliau un tudalen' yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u hadolygu'n drwyadl trwy ymgynghori â'r disgyblion a'r rhieni. Cryfder y broses hon yw llais y disgybl, sy'n ganolog i'r proffil. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau allanol fel seicolegwyr addysg, unedau iaith a therapyddion iaith a lleferydd. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod pob disgybl ag anghenion yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol sydd ei hangen arnynt, i wneud cynnydd yn erbyn eu camau dysgu unigol.

Mae perthynas werthfawr a llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cyfle ganddynt i chwarae rhan allweddol ym mywyd yr ysgol ac i gefnogi addysg y disgyblion yn effeithiol. Mae ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned ofalgar gan y rhieni, sy'n deillio o barodrwydd yr ysgol i weithredu polisi drws agored ar bob achlysur. O ganlyniad, mae'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r gymuned yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhieni'n cymryd rhan allweddol ym mywyd yr ysgol drwy gynnig cefnogaeth i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau celf a chrefft eisteddfodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau da i hyrwyddo bwyta'n iach a chadw'n heini. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn tyfu ffrwythau a llysiau i'w gwerthu i'r gymuned, sy'n hyrwyddo a datblygu eu medrau busnes yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog ffyrdd iach o fyw yn bwrpasol. Maent yn darparu gwersi chwaraeon wythnosol, gweithgareddau allgyrsiol llwyddiannus a gwersi nofio, sy'n cael effaith gref ar ddealltwriaeth disgyblion o sut i gynnal bywydau iachus. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyfartal synhwyrol i ddatblygu eu medrau addysgol, corfforol a chreadigol. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys gwersi addysg bersonol i drafod peryglon camddefnyddio sylweddau a sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, y gymuned leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gwasanaethau, eisteddfodau, cystadlaethau chwaraeon a gweithgareddau elusennol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymweliadau addysgol i gestyll lleol ac ymweliadau preswyl yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin yn bwrpasol. Mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol i gynnal gweithdai a phrosiectau i hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig a dramau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i berfformio a dysgu am eu treftadaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ddatblygu'r disgyblion, hyd eithaf eu gallu, mewn awyrgylch hapus, gynhaliol Gymreig. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol iawn gan bennaeth cynorthwyol dawnus a chadarn. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn gweithredu cyfundrefn sydd yn dosbarthu cyfrifoldebau yn ddeallus i'r staff, er enghraifft pan fo'r pennaeth yn yr ysgol arall sydd dan ei gofalaeth.

Mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd trwy ddefnyddio heriau i ysgogi creadigrwydd disgyblion o fewn themâu diddorol fel cestyll a thywysogion Cymru. Yn ogystal, mae'r ffocws cryf ar ddatblygu'r siarter iaith yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr a chyfredol yn eu lle. Mae arweinwyr y ddwy ysgol, sydd yn y clwstwr, yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd i ymdrin â chynlluniau ac arferion gwella ansawdd yn effeithiol. Maent yn cynnwys craffu ar waith ac arsylwi gwersi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn rheolaidd, gan ddilyn amserlen fonitro flynyddol. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn adeiladu darlun dilys, gonest a chyfredol o'r ysgol.

Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r gweithdrefnau hunanwerthuso. Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a gwella safonau disgyblion. Mae'r arweinwyr yn dosrannu cyfrifoldebau i dargedu blaenoriaethau'r cynllun gwella yn bwrpasol. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Nodwedd gref o'r weithdrefn hon yw argymhellion y cyngor ysgol ynglŷn â sut i gael effaith fuddiol ar dargedau'r ysgol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n dda at ddatblygu meddylfryd iach ymysg ei gilydd. O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n effeithiol i gefnogi gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Maent yn deall bwriadau'r ysgol yn dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n dda, sy'n cynnwys cymorthyddion i gefnogi'r disgyblion ar lawr y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn herio'n bwrpasol fel cyfeillion beirniadol nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon cadarn. Er eu bod yn ymweld â'r dosbarthiadau yn achlysurol, yn craffu ar waith ac yn cynnal cyfarfod gydag arweinwyr, nid ydynt yn mesur effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion yn ddigon pwrpasol.

Mae gweithdrefnau effeithiol i ddatblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ac arbenigedd staff. Er enghraifft, mae'r staff yn targedu effeithiolrwydd strategaethau darllen, ymyraethau cynnar a gweithgareddau gwyddonol ar draws ysgolion y dalgylch yn ddeallus, i wella medrau'r disgyblion. O ganlyniad, maent yn rhannu eu harbenigedd gyda'u cydweithwyr yn rheolaidd ac mae'r hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r staff a'r adeilad. Ar y cyfan, mae tir yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau yn yr ardal allanol yn y cyfnod sylfaen yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn ddigon llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth a gwella safonau a chyfoethogi'r cwricwlwm yn cael eu defnyddio'n effeithlon. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r defnydd bwriadus a wneir o warged yr ysgol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi yn y dosbarthiadau. Mae'r ysgol yn monitro hyn yn dda trwy ganolbwyntio'n ofalus ar effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion. Gwneir defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae'r gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2019